
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1259

**Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a
Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022**

RHAN 2

Sefydlu'r Cynllun

Sefydlu'r Cynllun

3.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu Cynllun i Weinidogion Cymru roi cymorth ariannol o dan baragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Pysgodfeydd 2020.

(2) Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn cyfansoddi'r Cynllun.